Safbwynt Llywodraeth Cymru ar gostau Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru)

Medi 2025

Y Cefndir

- Bil Aelod Preifat yw Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru), a arweinir gan Mark Isherwood AS, sy'n gosod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru a chyrff cyhoeddus a restrir i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o Iaith Arwyddion Prydain.

- Bil fframwaith ydyw sy'n ymwneud â hawliau ieithyddol. Nid yw'r Bil ei hun yn nodi'r camau trawsbynciol a fydd yn ofynnol i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o Iaith Arwyddion Prydain gan Lywodraeth Cymru neu gyrff cyhoeddus a restrir.

- Cyflwynodd Mark Isherwood AS Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) yn ffurfiol i'r Senedd ynghyd â Memorandwm Esboniadol cysylltiedig. Mae'r Memorandwm yn cynnwys yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar 14 Gorffennaf 2025. Gwnaeth Mark Isherwood AS ddatganiad yn y cyfarfod llawn ar 16 Gorffennaf 2025 hefyd i ddarparu rhagor o wybodaeth am y Bil. Cyhoeddwyd y Memorandwm Esboniadol ar wefan y Senedd pan gyflwynwyd y Bil ar 14 Gorffennaf: Datblygu Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru)

- Nid yw Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am Asesiad Effaith Rheoleiddiol Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru). Yr Aelod o'r Senedd, Mark Isherwood AS, a'i dîm Seneddol, a baratodd yr asesiad, sy'n gyfrifol am yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae hyn yn cynnwys y costau sy'n gysylltiedig â chyflawni dyletswyddau'r Bil.

- Dywedodd yr Aelod yn ei Ddatganiad Llafar deddfwriaethol wrth gyflwyno Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) ar 16 Gorffennaf mai Bil fframwaith yw Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru). Adlewyrchir hyn yng nghostau'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, sy'n cynnwys asesiad o gostau gweinyddol yn unig. Nid yw'n cynnwys costau gweithredu o ran cyflawni Strategaeth genedlaethol Iaith Arwyddion Prydain, canllawiau Iaith Arwyddion Prydain a chynlluniau ar gyfer Iaith Arwyddion Prydain, a fydd yn cael eu datblygu os bydd y Bil yn derbyn Cydsyniad Brenhinol.

Costau ar gyfer 2026-27

- Os rhoddir Cydsyniad Brenhinol (Gwanwyn 2026), rhaid i Lywodraethau'r dyfodol yng Nghymru weithredu yn unol â'r goblygiadau ariannol a amlinellir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Nid oes cynsail helaeth i ariannu Biliau Aelodau Preifat.

- Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol yr Aelod yn amlinellu asesiad o'r costau ar gyfer recriwtio a thalu Cynghorydd Iaith Arwyddion Prydain a phanel cymorth, ynghyd â chostau gweinyddol paratoi Strategaeth genedlaethol gyntaf Iaith Arwyddion Prydain a chanllawiau. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi mai'r costau i Lywodraeth Cymru ar gyfer blwyddyn gyntaf gweithredu'r Bil yn 2026-27 yw:

Costau Llywodraeth Cymru	**Swm (£)**
Cynghorydd Iaith Arwyddion Prydain	£127,400
Panel Cymorth	£45,900
Paratoi Strategaeth a Chanllawiau Cenedlaethol Cyntaf Iaith Arwyddion Prydain	£41,000
Cyfanswm	£214,300

- Mewn ymateb i Ddatganiad Llafar deddfwriaethol Mark Isherwood wrth gyflwyno Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) ar 16 Gorffennaf, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip y bydd Llywodraeth Cymru yn darparu'r costau a amlinellwyd ar gyfer y flwyddyn gyntaf yn llawn ar gyfer 2026-27, sef £214,300. Roedd hyn yn seiliedig ar ffigurau Asesiad Effaith Rheoleiddiol yr Aelod.

- Roedd costau blwyddyn gyntaf y Bil yn nodi'r costau gweinyddol i Lywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig â recriwtio ac ariannu Cynghorydd Iaith Arwyddion Prydain a phanel cymorth, yn ogystal â'r costau sy'n gysylltiedig â datblygu Strategaeth genedlaethol Iaith Arwyddion Prydain a'r canllawiau. Mae'r costau yn cynnwys amser swyddogion, ochr yn ochr â chyfieithu, dehongli ac ymgynghori.

- Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y costau gweinyddol a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y flwyddyn gyntaf (2026-27) yn amcangyfrif rhesymol o'r adnoddau a'r gost sy'n ofynnol i gychwyn yr agweddau gweinyddol ar y dyletswyddau a amlinellir yn y Bil, yn unol â chostau presennol Asesiadau Effaith Rheoleiddiol, megis Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru).

- Bydd y cyllid ar gyfer 2026-27 yn cael ei ddyrannu i'r Prif Grŵp Gwariant Cyfiawnder Cymdeithasol fel rhan o Gyllideb Ddrafft 2026-27. Cyllideb un flwyddyn fydd Cyllideb Ddrafft 2026-27. Ni fydd yn cynnwys rhagdybiaethau cynllunio mewn perthynas â llinellau sylfaen blynyddoedd i ddod. Mater i'r Llywodraeth newydd yn dilyn yr etholiad ym mis Mai 2026 fydd ariannu'r costau ar gyfer blynyddoedd i ddod, y tu hwnt i 2026-27.

Costau i'r dyfodol (2027-28 - 2035-36)

Costau i Lywodraeth Cymru

- Mae'r costau blynyddol a amcangyfrifir i Lywodraeth Cymru ar gyfer ail flwyddyn y Bil a'r blynyddoedd dilynol, a nodir yn Asesiad Effaith Rheoleiddiol yr Aelod, yn cynnwys costau ar gyfer Cynghorydd Iaith Arwyddion Prydain, panel cymorth, a chostau gweinyddol paratoi Strategaeth genedlaethol gyntaf Iaith Arwyddion Prydain a chanllawiau, yn ogystal ag adrodd ar gynnydd yn erbyn y Strategaeth bob 3 blynedd a diweddaru'r Strategaeth bob 6 blynedd. Mae'r costau blynyddol a amcangyfrifir i Lywodraeth Cymru ar gyfer blynyddoedd i ddod hyd at 2035-36 yn amrywio o £131,700 i £206,900. Mae hyn yn adlewyrchu'r dyletswyddau a osodir ar Weinidogion Cymru ar wahanol adegau dros gyfnod o 10 mlynedd.

- Yn gyffredinol, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod rhagdybiaethau rhesymol wedi'u gwneud wrth ddatblygu amcangyfrifon ar gyfer y costau gweinyddol blynyddol i Lywodraeth Cymru.

Costau i gyrff cyhoeddus a restrir

- Mae'r costau gweinyddol blynyddol a amcangyfrifir i gyrff cyhoeddus a restrir ar gyfer y blynyddoedd i ddod hyd at 2035-36 yn amrywio o £305,900 i £633,900. Mae hyn yn adlewyrchu'r dyletswyddau a osodir ar gyrff cyhoeddus a restrir ar wahanol adegau dros gyfnod o 10 mlynedd. Bydd y costau a allai godi yn sgil gweinyddu'r gwaith o ddatblygu cynlluniau Iaith Arwyddion Prydain a gynhyrchir gan gyrff cyhoeddus a restrir, adrodd arnynt a'u hadolygu, yn dibynnu ar lawer o ffactorau, er enghraifft canllawiau Iaith Arwyddion Prydain a gynhyrchir gan y Llywodraeth a ddaw i mewn, a chydweithrediad y cyrff cyhoeddus a restrir.

- Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y costau gweinyddol i gyrff cyhoeddus a restrir ar gyfer ail flwyddyn y Bil a'r blynyddoedd dilynol yn amcangyfrif rhesymol o'r adnoddau a'r gost sy'n ofynnol, yn unol â chostau presennol Asesiadau Effaith Rheoleiddiol, megis Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru).

Costau heb eu meintioli

- Bydd angen i lywodraethau a ddaw i mewn yn y dyfodol ystyried y costau ychwanegol a allai godi yn sgil gweithredu Strategaeth genedlaethol Iaith Arwyddion Prydain a'r canllawiau. Bydd gwerth am arian a fforddiadwyedd yn ystyriaethau pwysig wrth ddatblygu Strategaeth genedlaethol Iaith Arwyddion Prydain a'r canllawiau. Mater i Weinidogion Cymru fydd penderfynu ar gynnwys a chostau cysylltiedig Strategaeth genedlaethol Iaith Arwyddion Prydain a'r canllawiau, gyda mewnbwn gan Gynghorydd Iaith Arwyddion a'r panel cymorth.

Mater i bob un o'r cyrff cyhoeddus a restrir fydd penderfynu ar gynnwys ei gynllun ei hun o ran Iaith Arwyddion Prydain, yn unol â'r canllawiau.

- Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno nad yw'n bosibl amcangyfrif yr union gostau gweithredu ar hyn o bryd, gan nad yw'r costau hyn wedi'u meintioli.